Hawdd ei Ddeall

Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

# Cymru yn Fenis 2026

## Sut i wneud cais i gymryd rhan yn Arddangosfa Cymru yn Fenis yn Biennale Fenis



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Cymru yn Fenis**’.

Mai 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** walesinvenice@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am Cymru yn Fenis .......... 4

Pwy sydd yn gallu gwneud cais .......... 7

Ein nodau a'n gwerthoedd .......... 9

Sut fyddwn ni'n rhedeg y prosiect .......... 11

Y gyllideb .......... 13

Sut fyddwn ni'n dewis .......... 15

Dyddiadau pwysig .......... 16

Sut i wneud cais .......... 17

Sut i anfon eich Mynegiant o Ddiddordeb i ni .......... 20

Os ydych chi angen help .......... 21

# Am Cymru yn Fenis

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i bobl gymryd rhan yng Nghymru yn Fenis.



Mae Cymru yn Fenis yn **arddangosfa gelf**. Mae arddangosfa gelf yn rhywle lle mae pobl yn dangos eu celf, fel paentiadau neu luniau. Rydych chi'n gallu ymweld ac edrych ar y celf.




Mae Cymru yn Fenis yn rhan o ddigwyddiad celf mawr yn Fenis yn yr Eidal.




Fe fydd y digwyddiad rhwng **9 Mai 2026 a 22 Tachwedd 2026**.




Rydyn ni'n chwilio am sefydliadau celfyddydau gweledol yng Nghymru i wneud cais drwy wneud Mynegiant o Ddiddordeb.



Rydyn ni angen sefydliad celfyddydau gweledol i helpu artistiaid i lunio a chyflwyno'r arddangosfa.



Rydyn ni eisiau i'r arddangosfa gynnwys llawer o artistiaid gwahanol o wahanol gefndiroedd.



Rydyn ni eisiau i'r gwaith fod yn deg i bobl a'r blaned.




**Rhaid i chi wneud cais erbyn 1:00pm 4 Mehefin 2025.**

# Mwy am yr arddangosfa



Mae Cymru wedi bod yn rhan o'r digwyddiad yma ers blynyddoedd lawer.



Mae'n un o wyliau celf pwysicaf y byd.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Rydyn ni'n rheoli **Cymru yn Fenis** gyda **Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru**. Rydyn ni'n cael cefnogaeth gan **Lywodraeth Cymru**.



Rydyn ni eisiau dangos yr artistiaid gorau sy'n gwneud gwaith yng Nghymru nawr.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



I wneud cais, rhaid i chi:

- Bod yn sefydliad wedi'i leoli yng Nghymru.



- Cael profiad o reoli arian cyhoeddus.



Mae eich tîm yn gallu cynnwys pobl o'r tu allan i Gymru. Ond mae'n rhaid i'r prosiect fod o fudd i'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.



Does dim angen profiad o weithio mewn gwledydd eraill. Ond fe ddylech chi gynnwys pobl yn eich tîm sydd â mwy o brofiad i'ch helpu chi.




Mae mwy o wybodaeth am bwy sydd yn gallu gwneud cais yma: https://arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau

## Beth fyddwch chi'n ei gael o gymryd rhan



- Cyfle i ddangos celf Gymreig mewn digwyddiad mawr.



- Cyfleoedd i gyfarfod a gweithio gyda phobl o wahanol wledydd.



- Cymorth i greu gwaith celf newydd.




- Arian dros 2 flynedd.

# Ein nodau a'n gwerthoedd

Rydyn ni eisiau:



- Dangos celf Gymreig i bobl ar draws y byd.



- Cysylltu ag eraill.



- Rhoi cyfle i artistiaid a sefydliadau gweledol yng Nghymru weithio'n rhyngwladol.



- Cynnwys pawb yn gyfartal.



- Gofalu am yr amgylchedd.



- Helpu pobl i ddysgu am gelfyddydau gweledol Cymru.

**Rhai pethau sy'n bwysig i ni ydy:**



- Gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys pawb.




- Defnyddio'r Gymraeg.



- Gwneud dewisiadau da a theg.



- Gweithio gydag eraill i gael cyllid.



- Edrych ar ein gwaith a rhedeg pethau'n dda.

# Sut fyddwn ni'n rhedeg y prosiect



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r **tîm creadigol** ac yn cynnal cyfarfodydd prosiect.



Fe fydd y tîm creadigol yn cynnwys **Cyfarwyddwr Arddangosfa**. Fe fyddan nhw'n gyfrifol am eich cyllideb a'ch prosiect creadigol.



Fe fydd y **Rheolwr Portffolio** yn arwain y prosiect ac yn gyfrifol am yr holl gyllideb.



Fe fydd Grŵp Llywio yn cyfarfod bob 3 mis i gefnogi'r prosiect.



Fe fyddwn ni’n cefnogi pobl sy’n wynebu rhwystrau i ymuno.




Rydyn ni’n chwilio am leoliad yng nghanol Fenis.



Fe fydd y tîm creadigol yn rhedeg yr arddangosfa.



Mae’r prif sefydliad yn gallu cynnwys eraill wrth greu’r arddangosfa neu ei harwain ar ei ben ei hun.

# Y gyllideb




Y gyllideb lawn ar gyfer y prosiect ydy **£400,000** dros 2 flynedd. Mae hyn yn cynnwys yr holl gostau, gan gynnwys costau Cyngor y Celfyddydau.



Mae **£188,000** o hynny ar gyfer y tîm creadigol. Dyma'r swm y dylech chi ei ddefnyddio ar gyfer eich cyllideb.




Defnyddiwch y templed cyllideb yma: [https://arts.wales/cy/fenis](https://arts.wales/cy/fenis) Mae'r templed yn rhoi enghreifftiau o arddangosfa a chostau eraill.



Defnyddiwch wasanaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru pan rydych chi'n gallu.




Mae'n rhaid i chi ddangos y byddwch chi'n gwario'r arian yn dda ac yn cael prisiau teg.




Efallai y byddwch chi’n gallu cael arian ychwanegol ar gyfer costau mynediad. Pethau fel:



- Gweithwyr cymorth




- Gofal plant



- Dehonglwyr

# Sut fyddwn ni'n dewis




Fe fyddwn ni'n dewis prosiect sy'n bodloni nodau'r gwaith. Rhaid iddo hefyd:



- Bod o ansawdd uchel bod o fudd i gelfyddydau Cymru.



- Gwneud cysylltiadau â gwledydd eraill yn gryfach.



- Yn ymwneud â chydraddoldeb a chynnwys yr Iaith Gymraeg.




- Dangos sut mae'n gweithio gydag eraill.



- Dilyn ein nodau am les a gofalu am yr amgylchedd. Rydych chi'n gallu darllen mwy am ein nodau yma.

# Dyddiadau pwysig




**Ceisiadau'n cau:**
1:00pm 4 Mehefin 2025.

Cyhoeddi penderfyniad ar y rhestr fer:
16 Mehefin 2025.

Cyfweliadau:
23 a 24 Mehefin 2025.

Cyhoeddi'r penderfyniad:
canol Gorffennaf 2025.

Gwaith y prosiect:
Gorffennaf 2025 i Ebrill 2026.

Sioeau cyntaf yn Fenis:
6, 7 ac 8 Mai 2026.

Arddangosfa yn Fenis:
9 Mai 2026 i 22 Tachwedd 2026.

Teithio:
2027 i 2028.

# Sut i wneud cais




Rhaid i chi wneud cais trwy ein porth ar-lein. Mae angen i chi anfon **Mynegiant o Ddiddordeb** i ni drwy'r porth: porth.celf.cymru




**Mynegiant o ddiddordeb** ydy 1 ddogfen. Mae'n gallu bod mewn Word neu ffeil PDF. Rhaid i'r ffeil fod yn llai na 250 MB o faint.

Rhaid i'r Mynegiant o Ddiddordeb gynnwys:

**1. Cynnig.**



Mae hyn yn gallu bod hyd at 5 tudalen A4. Neu sain neu fideo.

Am wybodaeth am sain a fideo, cliciwch yma



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni:

- Am eich syniad arddangosfa.
- Y bobl a'r sefydliadau dan sylw a'ch nodau.
- Sut fyddwch chi'n cynnwys eraill. Ar-lein ac yng Nghymru.
- Sut mae'n cyd-fynd â Chymru yn Fenis.

**2. Profiad artistig.**

Mae hyn yn gallu bod hyd at 2 ochr tudalennau A4 fesul artist.




- Rhannwch wybodaeth am eich swyddi a'ch sgiliau ac enghreifftiau o'ch gwaith.



- Rydych chi'n gallu cynnwys dolenni gwe neu fideo. Os ydych chi'n cynnwys fideo, rhaid iddo fod hyd at 4 munud o hyd ac ar YouTube neu Vimeo.

## 3. Gwybodaeth am y Tîm.

Mae hyn yn gallu bod hyd at 4 ochr A4.



- Rhestrwch pwy sydd yn eich tîm a beth fyddan nhw'n ei wneud.



- Dywedwch pwy ydy'r Cyfarwyddwr Arddangosfa.

## 4. Cyllideb





- Defnyddiwch y templed cyllideb yma: https://arts.wales/cy/fenis




- Dywedwch wrthyn ni am unrhyw wybodaeth arall am arian sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

- Cynnwys unrhyw arian ychwanegol rydych chi'n disgwyl ei gael.

## 5. Amserlen




Dangoswch eich bod yn gallu cwrdd â'r holl ddyddiadau pwysig.

# Sut i anfon eich Mynegiant o Ddiddordeb i ni





1. Defnyddiwch ein porth ar-lein i wneud cais. Cofrestrwch os nad ydych wedi gwneud hynny yn barod. Mae mwy am hyn yma: porth.celf.cymru

   Os oes gennych unrhyw broblemau, anfonwch e-bost i ni yn grantiau@celf.cymru



2. Llenwch ffurflen gais **Cymru yn Fenis** ar y porth.



3. Uwchlwythwch eich **Mynegiant o Ddiddordeb** i'r portth.



4. Os byddwch chi'n bodloni'r meini prawf i wneud cais, fe fyddwn ni'n asesu eich cais.



5. Os byddwn ni'n eich rhoi ar y rhestr fer, fe fyddwn ni'n gofyn i chi am gyfweliad. Os nad ydyn ni'n eich dewis chi, fe fyddwn ni'n dweud pam wrthych chi.

# Os ydych chi angen help



Os oes gennych gwestiynau neu os ydych chi angen help i wneud cais, anfonwch e-bost i ni yn: cymruynfenis@celf.cymru




Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.celf.cymru